

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANRHAEADR-YNG-NGHINMEIRCH A'R NOS LUN 28AIN O FEDI 2020 TRWY "MICROSOFT TEAMS" AM 7.30 O'R GLOCH.

1. PRESENNOL: Y Cyngorwyr Elfed Williams (Cadeirydd), Arwel Davies, Philip Williams, Bari Evans, Geraint Jones, Cynghorydd Sir Ddinbych Joseph Welch a'r Clerc.

2. YMDDIHEURIADAU: Y Cyngorwyr Iwan Jones, Stanley Williams, Falmai Evans, Ceri Davies a Hywel Davies.

3. DDATGAN DIDDORDEB.: Dim yn codi.

4. TRAFODAETH GYDA GETHIN JONES A RUSSELL SHONE YNGLYN A'R CAIS CYNLLUNIO 23/2020/0463 - CODI 8 UNED LLETY GWYLIAU, SWYDDFA SAFLE A GWAITH CYSYLLTIEDIG AR DIR YN "THE LODGE," LLANRHAEADR.

Croesawodd y Cadeirydd Mr Russell Shone, perchenog safll'r cais cynllunio, ynghyd a Mr Gethin Jones, Asiant y cais cynllunio, i'r cyfarfod i drafod ymhellach y cais cynllunio dan sylw ar ôl derbyn sylwadau'r Cyngor Cymuned yn y cyfarfod blaenorol y Cyngor. Cafwyd trafodaeth hir ynglŷn ar gais cynllunio a phenderfynwyd yr aelodau am y sylwadau ychwanegol canlynol at gyngor Sir Ddinbych ar Ymgeisydd/Asiant:-

A: To produce a more accurate plan which demonstrates the true boundaries including the park and garden boundary and the ha ha and the plan is to scale

B. As highlighted by yourself a woodland does need managing and the woodland on your sight has not been managed for a number of years. It is highly likely that some trees will need to be removed and therefore we suggest that a tree survey is carried out as well as an environmental assessment.

5. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR A GYNHALIWYD A'R 27AIN O ORFFENNAF A 18FED O AWST 2020.

Cadarnhawyd cofnodion 27ain o Orffennaf a 18fed o Awst 2020 gan y Cyngorwyr yn bresennol.

6: MATERION YN CODI O'R COFNODION.

Derbyniwyd adroddiad Cyngor Sir Ddinbych fod safle'r Sir wrth Brŷn Glas yn Saron ddim yn orlawn gyda baw'r ffyrdd. Adroddwyd aelodau'r Cyngor fod y tomen pridd dal yna ac i'r Clerc ail adrodd y cwyn i'r Cyngor Sir.

7. DIWEDDARAF BAND EANG Y GYMUNED.

Adroddwyd y Cadeirydd fod y cylchlythyr a thrafodwyd yn cyfarfod blaenorol y Cyngor eisoes wedi ei chynhyrchu a dosbarthu dros y Cyngor i'r trigolion y Gymuned ac mi fydd canlyniad yr holiadur ar gael erbyn cyfarfod nesaf y Cyngor.

8. DIWEDDARAF MATERION "COFID-19" YN Y GYMUNED.

Ar ol derbyn ceisiadau am gefnogaeth arian oddi wrth Ysgolion Bro Cinmeirch, Llanrhaeadr ac Ysgol Pant Pastynog oherwydd chostau ychwanegol "Cofid-19" penderfynwyd rhodd o £1,000.00 yr un i'r ddwy Ysgol.

9. MATERION CYLLID.

A. Datganiad Banc £16,397.57.

B. Derbyniwyd ail ran o'r Precept am y flwyddyn yn diweddu 31ain o Fawrth 2021 £4,040.00.

C. Rhoddwyd awdurdod i'r taliadau canlynol:-

1. Cynghorydd Elfed Williams am gostau'r holiadur band eang yn y gymuned £165.00.

2. Ysgol Bro Cinmeirch, Llanrhaeadr tuag at gostau ychwanegol Cofid-19 £1,000.00.

3. Ysgol Pant Pastynog, Prion tuag at gostau ychwanegol Cofid-19 £1,000.00.

4. Cyflog y Clerc am y chwarter yn diweddu 30ain o Fedi 2020 £489.60.

5. HMRC am PAYE am y chwarter yn diweddu 30ain o Fedi 2020 £122.40.

10. CEISIADAU CYNLLUNIO:-

A. CAIS CYNLLUNIO 23/2020/0067 - GWAITH PEIRIANYDDOL ARFAETHEDIG I FFURFIO LLYN PYSGOTA, LLWYBRAU MEWNOL, MAES PARCIO A GWAITH CYSYLLTIEDIG YN GAER MYNYDD CARAFAN PARK, CAER MYNYDD FARM, SARON.

Penderfynwyd ar y sylwadau ychwanegol canlynol i'r cais cynllunio:-

1: The site plan and Location plan do not match up. The site plan shows the land extending right up to the South West boundary (which includes a section of land not in Caer Mynydd's ownership) where the Chapels Septic tank is situated whereas the Location plan shows the land stopping at a strip of trees. The design of the "Lake" to the South West corner is such that it will in all likelihood encroach on the sub irrigation pipework from the Chapel & Chapel Houses septic tank. (Where they have legal rights to discharge).

2. It has been brought to our attention that the mains potable water supply for Saron comes up through the field in question – we suggest that this be verified or otherwise with Dwr Cymru/Welsh Water.

3. The access to the site is inadequate and will lead to cars standing in the road whilst visitors open the gates to enter the site. There should be a space for a vehicle to pull in off the road before getting out to open the gate.

4. The visibility splay for egress from the site is also inadequate and does not comply with current Highway requirements.

5. There is no allowance for Toilet accommodation for the anglers.

B. CAIS CYNLLUNIO 23/2020/0616 - NEWID DEFNYDD CWRTIL DOMESTIG I DDARPARU CARAFÁN SEFYDLOG YN TAN-YR-ONNEN, LLANRHAEDR.

Penderfynwyd ar y sylwadau canlynol:-

1: Pryderon ynglyn a't traffic ychwanegol ar y lon gul i'r lleoliad.

2. Nid mae rhai o'r cymdogion wedi cael hysbyseb o'r cais cynllunio oddi wrth yr Adran Cynllunio o'r Cyngor Sir Ddinbych.

C. PENDERFYNIADAU CEISIADAU CYNLLUNIO.

Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi caniatáu cais cynllunio 23/2020/0576 - adeiladu manege ar gyfer defnydd personol yn Tan-y-Foel, Saron.

11. GOHEBIAETH.

Derbyniwyd nifer o adroddiadau er wybodaeth.

12. MATERION CYNGOR SIR DDINBYCH.

Derbyniwyd adroddiad y Cynghorydd Joseph Welch:-

A: Mae'r gweithwyr y Cyngor yn dal i weithio o adref oherwydd Cofi-19.

B. Mi fydd cyfarfodydd y Cyngor Sir trwy "Zoom" yn hytrach na "Webex" yn y dyfodol.

13. MATERION BRYD O DAN ADRAN 100B(4) O'R DDEDDF Y LLYWODRAETH LEOL 1972.

Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc tynnu sylw Cyngor Sir Ddinbych at y materion canlynol:-

A: Draen wedi ei thagu wrth Yr Hen Ysgol ar ffordd Penbrynllan yn Llanrhaeadr.

B. Ffordd heibio Capel-y-Wern a Tyddyn Isa' eisiau ei thrwsio cyn gynted â phosib.

C. Eisiau llochesi fysiau ar y A525 ym Mhentre' Llanrhaeadr pob ochr i'r ffordd wrth Hafod-y-Bryn.

14. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR – NOS LUN 26AIN O HYDREF 2020 AM 7.30 O'R GLOCH.